
Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gyfun y Brenin Harri VIII

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Yn ystod pandemig COVID-19, roedd yr ysgol yn llwyddiannus wrth gynorthwyo disgyblion a staff, gan gynnwys darparu cymorth cryf ar gyfer lles emosiynol disgyblion. Ceir ystod eang o gymorth buddiol ar gyfer disgyblion bregus, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Er bod y trefniadau i gadw dysgwyr yn ddiogel mewn cyfnod o darfu sylweddol i safle'r ysgol yn gadarn ar y cyfan, tynnwyd sylw'r ysgol at ychydig o faterion iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

Mae'r ysgol wedi cymryd ymagwedd gadarnhaol at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae ganddi weledigaeth glir sy'n cael ei harddel ar draws yr holl feysydd cyfathrebu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau addysgu, dysgu ac ymddygiad cyson dda. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos parch at eu hathrawon a'u cyfoedion, ond mewn tua hanner y gwersi, mae gwendidau mewn addysgu ac ymddygiad amhriodol yn cyfrannu at y ffaith nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol. Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn cynllunio ar gyfer datblygiad graddol medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol disgyblion yn ddigon strategol na datblygiad medrau Cymraeg disgyblion.

Er bod prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn berthnasol, ni chânt eu cyflwyno â thrylwyredd neu ffocws digonol. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn nodi'n fanwl gywir beth yw'r cryfderau sylweddol a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu a dysgu.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol. Maent yn deall sut i ddilyn ffordd iach o fyw a phwysigrwydd gofalu am eu hiechyd meddwl. Mae llawer o ddisgyblion yn unigolion hyderus, huawdl a gofalgar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn ddysgwyr cyfrifol, brwdfrydig ac uchelgeisiol. Maent yn dangos balchder yn eu dysgu ac yn gosod esiampl dda ar gyfer disgyblion iau, ar y cyfan.

# Argymhellion

**A1 Gwella effeithiolrwydd addysgu ac asesu fel bod disgyblion yn cael eu herio'n gyson i gyflawni eu potensial**

**A2 Cryfhau'r prosesau hunanwerthuso fel eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar yr effaith ar gynnydd disgyblion ac yn rhoi barn fanwl gywir i arweinwyr am feysydd i'w datblygu yn yr ysgol**

**A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, a'u monitro, gan gynnwys yn y Gymraeg**

**A4 Cryfhau ymagweddau at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, prydlondeb a phresenoldeb**

**A5 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro cynnydd tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun y Brenin Harri VIII |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1063 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 921 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 141 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.3%) | 17.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 23.0%) | 23.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 14/11/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.